Rhif: WG36274

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar Ladd mewn

Medi 2012

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78964-344-2

O'r 55 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 27 gan aelodau'r cyhoedd, 7 gan fudiadau lles anifeiliaid a daeth y gweddill o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cynrychiolwyr cymunedau ffydd a'r diwydiant lladd-dai. Mae Defra, Llywodraeth Cymru a DARDNI wedi cynnal ymgynghoriadau tebyg.

Dyma ddadansoddiad byr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

- Cadw'r rheolau cenedlaethol sy'n rhoi amddiffyniad helaethach na Rheoliad 1099/2009

Roedd y diwydiant yn gefnogol i'r rheolau cenedlaethol sy'n eu lle ar y cyfan ond roedd gofidiau y gallai unrhyw reolau newydd sy'n mynd y tu hwnt i Reoliad yr UE fod yn fwy na'r gofyn. Roedd y diwydiant yn gofyn am safon gyffredin ar draws Prydain os medrir. Roedd grwpiau lles a'r cyhoedd ar y cyfan yn gefnogol i gadw'r gofynion presennol am resymau lles.

- Lladd yn unol â rheolau crefyddol

Cafwyd pwysau mawr gan grwpiau lles, milfeddygon a'r cyhoedd i wahardd lladd heb stynio. Byddai'n well gan fudiadau lles weld y trefniadau presennol yn cael eu tynhau pe bai lladd heb stynio'n cael parhau. Roedd cynrychiolwyr cymunedau ffydd yn poeni y gallai hyn danseilio'u rhyddid crefyddol.

Cynigir bod y darpariaethau presennol yn parhau ac eithrio'r gofyn cyfreithiol i stynio cyn lladd pan leddir anifail yn unol â rheolau crefyddol. Fodd bynnag, byddwn yn edrych eto ar y mater hwn yn y dyfodol a bydd gofyn ystyried unrhyw oblygiadau o ran hawliau dynol yn ofalus, yn arbennig Erthygl 9 o Atodlen 1 Deddf Hawliau Dynol 1998: yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd.

- Mesurau i gadw golwg ar y broses stynio a lladd pan na fydd rhywun i gadw golwg

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn galw am ei gwneud yn orfodol gosod teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru. Gwnaeth yr ymgynghoriad hi'n glir ei bod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru ailystyried y mater hwn os daw tystiolaeth wrthrychol glir yn ystod yr ymgynghoriad. Mae mater teledu cylch cyfyng y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth ond aiff Llywodraeth Cymru i'r afael â'r mater hwn ar ôl cyflwyno'r rheoliad.

- Tystysgrifau Cymhwysedd

Cafwyd gwrthwynebiad cryf iawn i'r trefniadau a gynigiwyd ar gyfer tystysgrifau cymhwysedd. Y farn oedd eu bod yn rhy fiwrocratig a drud. Codwyd problemau arwyddocaol gan gynhyrchwyr dofednod bach a fyddai'n ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion am brofiad fel y'u diffinnir, i gychwyn y broses ymgeisio symlach. Roedd mudiadau lles a'r cyhoedd am fod yn siŵr bod tystysgrifau cymhwysedd yn gredadwy a chryf. Yr awgrym oedd y dylai pawb sydd â thrwydded WASK gael tystysgrif cymhwysedd gan eu bod yn bodloni'r gofyn a bod milfeddyg wedi ardystio eu bod yn gymwys.